**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**47 - Rheoliadau Cludo Sylweddau Ymbelydrol (Ymadael â'r EU) 2018**
*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 29 Tachwedd 2018*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| A fydd angen sifftio yn Senedd y DU? | Oedd |
| Gweithdrefn: | Negyddol arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Ty'r Cyffredin | 11 Rhagfyr 2018 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-deddfwriaeth Ty'r Arglwyddi | Wythnos yn dechrau 10 Rhagfyr 2018 |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 18 Rhagfyr 2018 |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 37 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Nid yw'n ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Ddim yn hysbys |
| Y weithdrefn | Negyddol neu Gadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol | Ddim yn hysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ty'r Cyffredin | Ddim yn hysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-deddfwriaeth Ty'r Arglwyddi | Ddim yn hysbys |

**Sylwadau**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) ac adran (5) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r offeryn statudol hwn yn cywiro methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu o fewn Rheoliad 1493/93 Euratom ('y Rheoliad') ar gludo sylweddau ymbelydrol rhwng Aelod-wladwriaethau'r UE. Mae'r Rheoliad yn ei gwneud yn ofynnol i gludo sylweddau ymbelydrol rhwng Aelod-wladwriaethau gael ei reoli a'i ddogfennu. Ar y diwrnod ymadael (29 Mawrth 2019), bydd y Rheoliad yn dod yn gyfraith yr UE a ddargedwir yn awtomatig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ond ni fydd yn ymarferol. Mae'r offeryn statudol hwn yn dirymu'r Rheoliad ac yn ei ddisodli gyda darpariaethau tebyg fel bod methiannau a ddargedwir yn cael eu cywiro ac y gall y Rheoliadau barhau i weithredu fel y mae nhw nawr hyd y bo modd.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 3 Rhagfyr 2018 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn. Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn ystyried bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 y Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi nodi unrhyw reswm cyfreithiol i geisio cynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.